

# Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: canllawiau ynghylch y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	2
Cefndir a Diben .....	2
Cylch gorchwyl .....	3
2. Rolau data .....	5
Rôl gyffredinol data .....	5
Set ddata gyffredin a osodwyd ar gyfer Dadansoddiad o Sefyllfa .....	6
Data yn y Dadansoddiad o Ymatebion ... ..	8
Y defnydd o dystiolaeth ansoddol .....	8
3. Rolau dinasyddion .....	10
Ystyriaethau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ..	11
Mathau o dystiolaeth a gafwyd gan Ddinasyddion ..	13
Dulliau .....	15
4. Datblygu dull gwerthusol at dystiolaeth .....	16
Cyd-destun ar gyfer y dull gwerthusol .....	16
Datblygu'r ymagwedd werthusol .....	17
Dadansoddiad o Sefyllfa ac asesu llesiant lleol .....	18
Y Dadansoddiad o Ymateb a datblygu'r cynllun llesiant lleol .....	19
RA1 Deall Canlyniadau .....	20
RA2 ac RA3: Cysylltu ymyriadau â chanlyniadau .....	21
5. Sgiliau, gallu a sicrhau ansawdd .....	24
6. Adnoddau a chysylltiadau .....	26
Atodiad A .....	29

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir a Diben

Bwriad y Canllawiau anstatudol hyn yw cynorthwyo byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGC) a'u cyfranogwyr gwadd a phartneriaid eraill wrth ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad yn effeithiol wrth baratoi eu hasesiadau o lesiant lleol, a chynlluniau llesiant lleol. Mae'r rhain yn ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').

Y man cychwyn ar gyfer cynhyrchu'r Canllawiau oedd gwerthusiad interim Llywodraeth Cymru o'r Cynlluniau Integredig Sengl (CIS/SIP) yn 2013 <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-single-integrated-plans/?lang=en><sup>1</sup>. Nododd yr arfarniad y prif wersi a ddysgwyd ynghylch cynhyrchu'r asesiadau o anghenion sy'n sail i'r CIS, y mae llawer ohonynt yr un mor berthnasol i asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol. Ymhlith y pryderon a nodwyd oedd:

- amrywioldeb yn ansawdd y dadansoddiad - cafodd hyn ei briodoli yn rhannol i'r llwyth gwaith a'r pwysau o ran amser ac yn rhannol i cyfyngiadau ar sgiliau a gallu;
- roedd asesiadau angen yn canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio a chyflwyno'r sefyllfa gymdeithasol ac economaidd i nodi blaenoriaethau lleol (yr hyn a elwir yn 'dadansoddiad o sefyllfa'). Cymharol ychydig o ffocws oedd yna ar nodi sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn ac a oedd ymdrechion hyd yma wedi bod yn llwyddiannus (y 'dadansoddiad o ymateb' fel y'i gelwir);
- dibyniaeth drom ar dystiolaeth feintiol, gyda diffyg cymharol o dystiolaeth ansoddol i ddatblygu esboniadau ac archwilio achosion;
- diffyg eglurder ynghylch ymgysylltiad dinasyddion yn y broses asesu anghenion - o ran pwy, pryd, i ba bwrpas a'r ffordd orau o ymgysylltu;
- heriau o amgylch cymhwyso dulliau seiliedig ar ganlyniadau, megis Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau; a
- chyfyngiadau parhaus ar allu dadansoddol yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig o ran gwerthuso.

Mae'r broses ar gyfer paratoi asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol yn cynnig cyfle i roi sylw i rai o'r heriau hyn (o leiaf yn rhannol) a datblygu ffyrdd mwy

---

<sup>1</sup> Broomfield, J. a Lezerad, A. (2013): Evaluation of Single Integrated Plans. Llywodraeth Cymru, tt 65

cadarn ac adeiladol o ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddi. Y gobaith yw y bydd y Canllawiau hyn yn chwarae rhan flaenllaw yn y dasg o lywio'r gwaith hwn.

Ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus, eu cyfranogwyr gwadd a phartneriaid eraill, amcanion y Canllawiau yw:

- 1) gwneud argymhellion ynghylch math a lefel y mewnbwn dadansoddol sy'n angenrheidiol i gynhyrchu asesiad trwyadl o lesiant lleol a chynllun llesiant lleol;
- 2) nodi agweddau o ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad sy'n debygol o gynnwys rhywfaint o ddatblygu ar sgiliau (ee sgiliau o ran y defnydd o offer gwerthuso; sgiliau i hwyluso trafodaeth am ddehongli tystiolaeth a sut i weithredu arno) ac agweddau at y defnydd o dystiolaeth; a
- 3) chynorthwyo gyda chynllunio asesiadau o lesiant lleol a chynllun llesiant lleol - ee drwy nodi'r angen am sgiliau dadansoddi arbennig.

Ar gyfer y dadansoddwyr ac eraill sy'n ymwneud â goruchwyllo a chynhyrchu'r asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol, mae'r Canllawiau yn anelu at:

- 4) gynnig cyngor ynghylch y dull cyffredinol, gan ganolbwyntio ar agweddau sydd wedi profi'n heriol yn hanesyddol (ee y defnydd o dystiolaeth ansoddol);
- 5) esbonio'r rhesymeg dros weithio tuag at greu set data cyffredin a dull mwy cyson tuag at y defnydd o ddata;
- 6) cynnig cyngor ynghylch pam, pryd a sut i ymgorffori tystiolaeth o ffynonellau a geir trwy ymgysylltu â dinasyddion; a
- 7) helpu i wneud yr achos dros ffordd wahanol o weithio gyda thystiolaeth a datblygu sgiliau i'w hwyluso.

Gyda'i gilydd, mae'r prif amcanion hyn yn cyfrannu at bwrpas cyffredinol, sef: **sicrhau bod rôl tystiolaeth, dadansoddi ac ymchwil yn cael ystyriaeth ddigonol mewn asesiadau o lesiant lleol; a bod tystiolaeth a dadansoddiad yn cael dylanwad cymesur ynghylch sut mae cynlluniau llesiant yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u hadolygu.**

Drwy gynnig cyngor ymarferol a thrafod disgwyliadau rhesymol, y gobaith yw y bydd y Canllawiau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig - nid yn unig i wella'r ffordd y mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o nodi blaenoriaethau lleol ond hefyd o ran dewis a dylunio'r ymyriadau a roddir ar waith i'w cyflawni nhw.

## Cylch Gorchwyl

Mae'n bwysig mynegi'r cylch gorchwyl ar gyfer y Canllawiau hyn yn eglur, a fydd yn helpu defnyddwyr i ddeall eu rôl a chael y gwerth gorau ohonynt. Yn wahanol i'r canllawiau a gyhoeddwyd i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus o dan adran 51 y Ddeddf ac a roddwyd i gynghorau cymuned o dan adran 40, mae'r canllawiau hyn yn anstatudol.

Y prif gynulleidfaedd ar gyfer y Canllawiau hyn yw 1) yr unigolion neu grwpiau sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol ym mhob ardal; a 2) y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u cyfranogwyr wedi eu gwahodd a phartneriaid eraill, y bydd y Canllawiau yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth o'r math a'r lefel o ddadansoddiad sy'n ymwneud â chynhyrchu asesiadau a chynlluniau cadarn.

Mae'r Canllawiau yn ymwneud â defnyddio tystiolaeth a dadansoddi yn unig. Nid yw, ynddo'i hun, yn ganllaw ynghylch sut i gynhyrchu'r asesiad o lesiant lleol na sut i ymgorffori tystiolaeth yn y cynllun llesiant lleol. Wedi dweud hynny, mae'n hanfodol cydnabod eu perthnasedd hefyd mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth (gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr). Rhaid i'r adroddiad asesu poblogaeth cyntaf gael ei gynhyrchu erbyn Ebrill 2017. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gymryd yr asesiad poblogaeth i ystyriaeth wrth baratoi ei asesiad o lesiant lleol.

Tra bo'r Cyfarwyddyd hwn yn gwneud argymhellion ynghylch y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad, mae disgrisiwn lleol ynghylch sut mae asesiadau o lesiant lleol yn cael eu cyflawni yn amlwg yn bwysig iawn. Mae'r Canllawiau hefyd yn rhai generig ac yn osgoi trafod dadansoddi pynciau neu feysydd pwnc unigol - a allai ddyddio neu fynd yn anghywir yn gyflym. Y bwriad, trwy ganolbwyntio ar agweddau a dulliau dadansoddol yn hytrach na phynciau penodol, yw cynhyrchu canllawiau a fydd yn berthnasol i unrhyw bwnc ar unrhyw amser.

Yn olaf, cafodd y Canllawiau hyn eu drafftio mewn cydweithrediad agos â Gweithgor ar draws y sector cyhoeddus (gweler Atodiad A), er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin ag ystyriaethau perthnasol ac yn gwneud argymhellion ymarferol. Y bwriad yw adolygu'r Canllawiau yn rheolaidd yn y dull cydweithredol hwn, er mwyn eu cadw'n berthnasol ac yn amserol. Bydd y Canllawiau felly yn esblygu wrth i wersi ac adborth gael eu hystyried.

Mae gan yr ymagwedd at y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad a nodir yn y Canllawiau hyn ragosodiad sylfaenol. Awgrymwn y dylai cydbwysedd yr ymdrech symud i ffwrdd oddi wrth y dadansoddiad a ddefnyddir i nodi blaenoriaethau eang (a elwir yma yn **Ddadansoddiad o Sefyllfa**) tuag at y defnydd mwy beirniadol, gwerthusol o dystiolaeth i ddeall sut a pham y mae ymyriadau yn gweithio a sut y

byddant yn cyfrannu at amcanion llesiant lleol ardal yn awr ac yn y dyfodol (a elwir yma yn **Ddadansoddiad o Ymateb**).

Nid yw hyn yn tynnu oddi ar bwysigrwydd Dadansoddiad o Sefyllfa cadarn mewn unrhyw ffordd. Yn wir, mae'n cydnabod bod newid mewn pwyslais o'r fath yn debygol o fod yn heriol a bydd yn gofyn am ystod ehangach o sgiliau. Gallai hyn olygu mwy na dim ond ail-gyfeirio syml ar adnoddau dadansoddol presennol.

Mae'r Canllawiau hefyd yn argymhell dull iteraid. Mae'n annhebygol bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ddeall ardal ar gael ar yr adeg y mae'r dadansoddiad yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi. Bydd y dadansoddiad yn tynnu sylw at fylchau niferus mewn gwybodaeth/cudd-wybodaeth y dylid ymdrin â nhw drwy ymchwil pellach. Dylai asesiadau a chynlluniau gael eu diwygio a'u hehangu pryd bynnag y bydd y bylchau hyn mewn tystiolaeth yn cael eu trin neu pan ddaw gwybodaeth newydd i'r golau. Yn ei dro, dylai'r datblygiadau hyn gael eu cyfathrebu'n rheolaidd i fyrdau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod eu goblygiadau posibl ar gyfer blaenoriaethau lleol yn cael eu deall.

## 2. Rolau Data

### Rôl gyffredinol y data

Byddai'n anodd gorbwysleisio rôl data mewn unrhyw asesiad o lesiant lleol ac yn natblygiad y cynllun llesiant lleol. Mae data yn allweddol mewn sawl ffordd, yn enwedig o ran caniatáu i ni nodi nodweddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal; sut mae'r rhain yn amrywio dros amser a gofod; a sut maent yn cymharu ag ardaloedd eraill. Gallai data perfformiad a monitro fod yn bwysig hefyd o ran deall y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn ardal a pha mor dda y maent yn bodloni anghenion.

Mae set eang o ddangosyddion cenedlaethol yn cael ei datblygu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf, a fydd yn fan cychwyn defnyddiol iawn ar gyfer asesu llesiant lleol.

Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus<sup>2</sup>, Pennod 6 - Perfformiad a Mesur Perfformiad - yn amlinellu'r cymhlethdod a'r gorgyffwrdd yn yr ystod o ddangosyddion a ddefnyddir ar draws sefydliadau, strategaethau a chynlluniau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y duedd i fesur yr allbynnau a'r prosesau sy'n berthnasol i sefydliadau, yn hytrach na chanlyniadau sy'n cael eu rhannu ar draws y sector cyhoeddus.

Mae adran 6.60 yn argymhell:

*'... dylai fod cyfres glir a chryno o fesurau canlyniadau, gyda cherrig milltir a thargedau lle bo'n briodol, a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a phob bwrdd gwasanaethau lleol ac yn seiliedig ar gynllun integredig sengl yr ardal honno.'*

Mae'r arsylwadau hyn yn sicr yn berthnasol i'r asesiadau o anghenion sy'n sail i'r Cynlluniau Integredig Sengl. Ymhlith y materion a nodwyd o amgylch y defnydd o ddata yn yr asesiadau hyn o anghenion oedd:

- niferoedd ac ystod eang y dangosyddion sy'n cael eu defnyddio;
- diffyg cysondeb yn y defnydd o ddata, hyd yn oed o fewn meysydd pwnc cul iawn;
- anallu i gymharu a meincnodi rhwng ardaloedd; a
- lefel y galw ar adnoddau dadansoddol cyfyngedig.

Yn amlwg, gallai asesiadau o lesiant lleol gael eu heffeithio hefyd gan y materion hyn, gan eu gwneud yn rhai pwysig i'w trafod ac i gynnig cyngor yn eu cylch o fewn y Canllawiau hyn.

---

<sup>2</sup> <http://gov.wales/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?lang=en>

Dylai data, gellid dadlau, fod â dwy rôl wahanol:

1. Creu darlun bras o lesiant o fewn ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y gallai blaenoriaethau posibl ar gyfer cynllun llesiant lleol ardal gael eu nodi (y Dadansoddiad o Sefyllfa).
2. Cyfrannu at ddadansoddiad gwerthusol o faterion neu themâu unigol o fewn ardaloedd i lywio datblygiad y cynllun llesiant lleol (y **Dadansoddiad o Ymateb**). Byddai'r dadansoddiad hwn yn:
  - cyfoethogi dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar faterion o fewn ardaloedd;
  - datblygu dealltwriaeth o sut, ac i ba raddau, y mae gwasanaethau presennol<sup>3</sup> yn mynd i'r afael â'r materion hynny;
  - helpu i nodi a gwerthuso dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau; ac
  - ystyried sut y bydd tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn effeithio ar ardaloedd lleol yn y dyfodol.

Mae cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a rhwymedigaethau cyfrinachedd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau anstatudol hyn. Bydd angen i aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynhyrchu asesiadau gymryd eu cyngor cyfreithiol eu hunain er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau. Ond bydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses honno sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau perthnasol wrth reoli, prosesu a defnyddio data sy'n ymwneud ag unigolion. Dylid cadw'r ystyriaethau hyn mewn cof lle bynnag y mae data sy'n ymwneud ag unigolion yn cael ei ystyried.

### **Set ddata gyffredin ar gyfer Dadansoddiad o Sefyllfa**

Er bod dadl gref dros ddisgresiwn lleol ynghylch defnyddio data yn y **Dadansoddiad o Ymateb**, mae dadl yr un mor gryf o blaid rhywfaint o safoni ynghylch creu darlun cyffredinol o lesiant ardal drwy'r **Dadansoddiad o Sefyllfa**. Dyma pam rydym yn dadlau dros sefydlu set ddata gyffredin, a fyddai'n cael ei chasglu a'i dosbarthu'n rhwydd i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r prif bwrpas o lunio a diweddarau eu hasesiadau o lesiant lleol.

---

<sup>3</sup> Dylai'r term 'gwasanaethau' gael ei gymryd i gynnwys ystod lawn y cynlluniau a'r ymyriadau sy'n digwydd mewn ardal (ee gwasanaethau a ddarperir gan y Trydydd Sector a rheoli ecosystemau), nid dim ond gwasanaethau lle ceir rhyngweithio uniongyrchol rhwng dinasyddion a chyrrff cyhoeddus.

Ar wahân i ystyriaethau o ran sut i ddarparu adnoddau ar gyfer creu a chynnal set ddata gyffredin, mae yna nifer o ddadleuon sy'n cefnogi'r cynnig:

- defnydd mwy effeithlon o adnoddau dadansoddol - mae nodi a dod o hyd i ddata ar gyfer asesiadau o anghenion ac ymarferion tebyg yn hanesyddol wedi'i gynnal yn lleol, gan arwain at ddyblygu ymdrech diangen. Byddai set o ddata craidd yn lleihau'r baich hwn yn sylweddol, gan ryddhau cyfran o amser dadansoddwyr i ganolbwyntio ar ddatblygu'r Dadansoddiad o Ymateb;
- lleihau'r baich ar gyflenwyr data - os byddai set data craidd yn bodloni cyfran sylweddol o anghenion data, byddai hyn yn fodd i leihau'r baich ar brif gyflenwyr dangosyddion yng Nghymru, megis Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd;
- rheoli maint y dasg - os mai nod dadansoddiad o sefyllfa yw creu darlun eang o lesiant ardal i nodi blaenoriaethau, gellid dadlau bod enillion yn lleihau wrth ymestyn y dadansoddiad y tu hwnt i set o eitemau data wedi'u diffinio'n dda sy'n olrhain tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel pwynt cyfeirio, mae dadansoddiad o Asesiadau Anghenion CIS (SIP) a gynhaliwyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol yn 2014, a oedd yn edrych ar y defnydd o ddata a'u hailymddangosiad, yn awgrymu y byddai rhywle rhwng 50 a 75 o gydrannau yn addas ar gyfer set ddata gyffredin; a
- gwella cymaroldeb a chysondeb - gallai cymaroldeb rhwng ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac ardaloedd y tu allan i Gymru, er enghraifft, gael eu cefnogi'n well os yw dethol y data yn seiliedig ar feini prawf sy'n caniatáu cymharu a meincnodi.

Ar yr un pryd, mae'n bwysig ei gwneud yn glir beth fyddai'r bwriad y tu ôl i sefydlu set ddata gyffredin.

- byddai'r set ddata gyffredin yn anelu at dynnu oddi ar setiau dangosyddion a fframweithiau canlyniadau sefydledig a'r data a ddefnyddir eisoes gan sefydliadau sy'n aelodau o'r byrddau, er mwyn osgoi creu cymhlethdod pellach;
- byddai'n gwneud synnwyr os yw'r set dangosyddion cenedlaethol sy'n cael ei datblygu ar gyfer y Ddeddf yn fan cychwyn ar gyfer set ddata gyffredin. Byddai hyn yn helpu i sicrhau defnydd cyson o'r data o amgylch themâu llesiant craidd;
- ni fyddai'r set ddata gyffredin yn anelu at fod yn gyflawn. Byddai angen ychwanegu ffynonellau eraill a mathau o ddata eraill ati, er mwyn sicrhau bod asesiadau yn gytbwys ac yn berthnasol i amgylchiadau lleol. Byddai angen i hyn gael ei benderfynu yn lleol; ac



- er y byddai'r set ddata gyffredin yn cael ei rhannu mewn fformat cyson ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ni fyddai'n atal rhannu data lleol rhwng ardaloedd, a fydd yn cynorthwyo gyda chymharu a meincnodi.

Er nad yw'r canllawiau hyn yn mynd mor bell ag amlinellu cynigion penodol am gynnwys set ddata gyffredin, y mae'n awgrymu y byddai'r meini prawf canlynol yn cael eu cymhwyso.

Dylai'r data fod:

- yn ddigon cadarn - yn ddelfrydol dylent fod â statws Ystadegau Gwladol lle bynnag y bo modd;
- mor amserol ag sy'n bosibl;
- ar gael ar lefel awdurdod lleol o leiaf;
- yn gymharol ar draws ardaloedd; ac
- ar gael i'r cyhoedd i'w gwneud yn bosibl i gael ceisiadau am ddata agored, er enghraifft.

## Data yn y Dadansoddiad o Ymateb

Mae rôl data wrth lunio'r **Dadansoddiad o Ymateb** yn gymhleth ac amlochrog. Gallai'r data eu hunain gymryd sawl ffurf a bydd y cyd-destun lleol yn effeithio ar ba ddata fydd yn cael eu defnyddio a sut. Felly mae'n anodd cyffredinoli. Mae yna, fodd bynnag, rai prif ystyriaethau perthnasol i Ddadansoddiad o Sefyllfa a Dadansoddiad o Ymateb:

1. *Datblygu esboniadau ac archwilio achosion* - dim ond darlun rhannol y bydd data ynddynt eu hunain (a gymerir i olygu data meintiol yn yr achos hwn) fyth yn eu rhoi. Mae data yn dda am ddisgrifio ac olrhain *beth* sydd wedi digwydd, ond yn gymharol gyfyngedig o ran datblygu esboniadau, archwilio achosion a nodi ffactorau cyd-destunol - meysydd lle mae tystiolaeth ansoddol yn gryfach. Dylai Dadansoddiad o Ymateb cytbwys, felly, gynnwys rhyw fath o dystiolaeth ansoddol ochr yn ochr â data meintiol, neu o leiaf ddefnyddio ystod o ddata i ddadansoddi materion o wahanol safbwyntiau.

2. *Dehongli data* - mae ymhell y tu hwnt i gwmpas y Canllawiau hyn i drafod dadansoddi a dehongli data yn fanwl. Ond mae'n bwysig bod safonau, arferion a rhwymedigaethau cyfreithiol priodol yn cael eu cynnal, er mwyn osgoi unrhyw gamddehongli, camddefnyddio neu gamddeall y data. Ymhlith y prif ystyriaethau y mae:

- defnydd priodol o ddata cyfres amser - ee archwilio tueddiadau dros dymor hwy lle bynnag y mae hynny'n bosibl, i osgoi camddehongli newidiadau yn y tymor byrrach mewn data;
- gwneud y cyd-destun, cyfyngiadau ac amseroldeb y data a ddefnyddiwyd yn glir;
- gwneud y lefel o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon yn glir;
- bod yn glir ynghylch meintiau sampl neu boblogaeth;
- gwahaniaethu rhwng gwahaniaethau sylweddol a gwahaniaethau heb fod yn sylweddol;
- rhoi cyfeiriadau at feincnodau neu gymaryddion priodol lle bo hynny'n briodol; a
- thrafod cwmpas daearyddol data.

### **Y defnydd o dystiolaeth ansoddol**

Rhaid cydnabod nad yw ymgorffori tystiolaeth ansoddol yn digwydd heb ei heriau, yn enwedig o ran sicrhau ansawdd a dilysrwydd, costau ac amserlenni ar gyfer casglu, a'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio tystiolaeth o'r fath. Dylai'r gallu i ddefnyddio tystiolaeth ansoddol ochr yn ochr â data meintiol gael ei weld, felly, fel her tymor hwy.

Ond ni ddylai hyn atal ymdrechion i ddefnyddio tystiolaeth ansoddol, hyd yn oed os yw hyn yn y lle cyntaf yn golygu gweithgareddau ymchwil ar raddfa fach neu ganolbwyntio ar ystod gul o bynciau er mwyn rheoli costau a datblygu sgiliau yn raddol. Ar ben hynny, mae darparu gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn cynnig cyfleoedd i gasglu tystiolaeth ansoddol neu mae'n cynhyrchu tystiolaeth ansoddol drwy ryngweithio â defnyddwyr gwasanaeth (ee asesiadau gofal cymdeithasol, derbyniadau i'r ysbyty a rhyddhau o'r ysbyty). Dylai'r cyfleoedd hyn gael eu harchwilio'n llawn.

Mae tystiolaeth ansoddol yn ymwneud yn bennaf â deall ymddygiad dynol o bersbectif hysbysydd neu hysbyswyr. Mae casglu tystiolaeth ansoddol 'sylfaenol' o ansawdd da, yn gallu bod yn gostus ac yn cymryd llawer o amser ac mae angen trin dadansoddi yn ofalus iawn i sicrhau bod gwerth posibl y dystiolaeth yn cael ei wireddu. Ond ni ddylai gwerth tystiolaeth eilaidd gael ei diystyru ychwaith. Er enghraifft, mae gwerthusiadau a gyhoeddwyd neu astudiaethau ymchwil yn aml yn cynnwys tystiolaeth ansoddol ac yn aml iawn bydd hanfod y canfyddiadau yn drosglwyddadwy ac yn dileu'r angen am gynnal ymchwil sylfaenol costus yn lleol.

Mae manteision posibl ar gyfer y Dadansoddiad o Sefyllfa a'r Dadansoddiad o Ymateb. Byddai rhai o brif ddefnyddiau tystiolaeth ansoddol yn cynnwys:

1. *Ychwanegu cyd-destun at ddata meintiol* - gallai tystiolaeth ansoddol gael ei defnyddio i roi cyd-destun i ddata meintiol a helpu i gyfleu 'stori'r data' i ymarferwyr, gwneuthurwyr polisi a'r cyhoedd (Sefyllfa).
2. *Deall anghenion a dymuniadau* - archwilio agweddau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr tuag at lesiant a gwasanaethau lleol, er mwyn nodi ystyriaethau ar gyfer cynllunio gwasanaethau (Sefyllfa).
3. *Cael adborth a phrofi syniadau* - er enghraifft, defnyddio tystiolaeth ansoddol i asesu dichonoldeb opsiynau gwahanol ar gyfer darparu gwasanaethau a gwerthuso modelau a chynlluniau peilot newydd (Ymateb).

Mae ystyriaethau ynghylch sicrhau ansawdd dadansoddiad, yn feintiol ac yn ansoddol, yn cael eu trafod ym Mhennod 5. Ar gyfer y ddau fath o dystiolaeth, fodd bynnag, dylai un o'r pryderon mwyaf fod yn ymwneud â graddio ffynonellau tystiolaeth, gan nad yw pob ffynhonnell yr un mor ddilys a dibynadwy, ac ni ddylai pob ffynhonnell gael eu pwysoli'n gyfartal mewn asesiad. Mae canllawiau pellach ar raddio tystiolaeth, neu 'Hierarchaeth tystiolaeth', i'w gweld yn yr adran Adnoddau a Dolenni.

### **3. Rolau Dinasyddion**

Mae cyfranogiad y dinesydd, neu ymgysylltu, yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n ganolog i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ymgysylltu / cyfranogiad yw un o bum peth y mae angen i gyrrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy atynt, o dan y Ddeddf. Mae'r diffiniad o ymgysylltu â dinasyddion a ddefnyddir gan Gyfranogaeth Cymru yn ddefnyddiol yng nghyd-destun asesu llesiant lleol a'r cynllun llesiant lleol. Mae'r diffiniad yn pwysleisio'r gwahanol bwyntiau lle gallai tystiolaeth gan ddinasyddion wneud cyfraniad at wella llesiant lleol.

*'Proses weithredol a chyfranogol y gall pobl ei defnyddio i ddylanwadu a ffurfio polisi a gwasanaethau sy'n cynnwys ystod eang o ddulliau a thechnegau gwahanol.'* (Cyfranogaeth Cymru)

O safbwynt tystiolaeth a dadansoddiad, dylai'r data a'r wybodaeth a gafwyd drwy ymgysylltu fod yn sylfaenol i unrhyw asesiad o lesiant lleol. Yn wir, os yw'r asesiadau, ac yn eu tro cynlluniau i wirioneddol "*gynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant y bobl yn yr ardal*" a rhoi pobl wrth galon cynllunio a darparu gwasanaethau, dylai hyn ddechrau trwy roi pobl yng nghanol yr asesiad sy'n sylfaen ar gyfer nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer gwasanaethau lleol ac opsiynau ar gyfer ymdrin â hwy.

Bydd data a gwybodaeth a geir gan ddinasyddion yn hanfodol o ran sicrhau bod yr asesiadau yn gytbwys ac yn gallu cyfrannu at ddealltwriaeth gyfoethocach o'r materion y bydd penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig arnynt. Nodwch y sylwadau mewn perthynas â data sy'n ymwneud ag unigolion yn gynharach yn y ddogfen hon.

Cydnabyddir nad yw ymgysylltu â neu gyfranogiad dinasyddion yn ystyriaeth ddadansoddol *per se*; mae'r data a'r wybodaeth yn deillio o ymgysylltu â dinasyddion yn gorgyffwrdd â rhai o'r meysydd eraill yng nghwmpas y Canllawiau hyn (yn bennaf y defnydd o dystiolaeth ansoddol a defnyddio dulliau rhesymegol ar gyfer dylunio ac asesu gwasanaethau).

Mae gan adran hon y Canllawiau fwriad penodol. Ei nod yw disgrifio rhai o'r prif ystyriaethau ynghylch ymgysylltu â dinasyddion a'u trafod o safbwynt tystiolaeth a dadansoddi. Mae'r ystyriaethau hyn yn rhagofyniad pwysig i ddeall:

- ble a sut y bydd tystiolaeth o safbwyntiau dinasyddion yn ffitio i asesiad o lesiant lleol;
- y gwahanol fathau o gyfraniadau y gallai dinasyddion eu gwneud at asesiad; a'r
- gallai gwahanol fathau o ddata a thystiolaeth y gallai dinasyddion eu cyfrannu at Aseiad.

Mae'n bwysig egluro disgwyliadau rhesymol hefyd mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion.

Mae'n rhesymol disgwyl y bydd byrddau yn gwneud ymdrechion i:

- ymgorffori tystiolaeth a gafwyd drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion lleol. Dylai hyn ddigwydd ar draws cynifer o feysydd yr asesiad ag y bo modd, a dylai gynnwys gwahanol fathau a defnydd o dystiolaeth, a allai gynnwys:
  - darparu cyd-destun ynghylch defnydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau presennol ar gyfer y **Dadansoddiad o Sefyllfa**; ac
  - archwilio opsiynau posibl ar gyfer ail-ddylunio neu ddatblygu modelau gwasanaeth newydd yn y **Dadansoddiad o Ymateb**.
- cyflwyno'r dystiolaeth hon ochr yn ochr â ffynonellau eraill i gynhyrchu, asesiad a chynllun crwn a chytbwys;
- dylanwadu a siapio gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion presennol i wella ansawdd y dystiolaeth y maent yn gallu ei chyfrannu;
- ymgorffori ffynonellau tystiolaeth eilaidd lle maent yn cynnwys gwybodaeth yn deillio o ymgysylltu â dinasyddion (ee adroddiadau gwerthuso sydd wedi cysylltu â grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, arolygon); a
- bod yn glir ynghylch y rhesymau pam nad yw safbwyntiau dinasyddion yn cael eu hystyried.

Nid yw'n rhesymol disgwyl:

- y byddai dinasyddion yn ymgysylltu'n uniongyrchol ar bob agwedd ar asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol. Yn wir, nid y nod ddylai fod i gynyddu faint o ymgysylltu sy'n digwydd er ei fwyn ei hun, ond ymgorffori cymaint o dystiolaeth ystyrion, o ansawdd da ar safbwyntiau dinasyddion ag y bo modd;
- bydd yr holl dystiolaeth sydd ar gael drwy ymgysylltu â dinasyddion / cynnwys pobl a grwpiau o ansawdd a dilysrwydd digonol i fod yn sylfaen ar gyfer yr Asesiad a'r Cynllun; a
- gallai'r gallu dadansoddol i gasglu, dadansoddi a defnyddio'r dystiolaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â dinasyddion yn hawdd gael ei gynyddu i gwrdd â galwadau ychwanegol. Mae'n amlwg y byddai angen i'r gwaith o ddatblygu sgiliau a gallu fod yn raddol.

## **Ystyriaethau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion**

Ni ddylai tystiolaeth a geir drwy ymgysylltu â neu gynnwys dinasyddion gael ei defnyddio fel cynsail ar fodel diffyg syml sy'n nodi bylchau sydd angen eu llenwi. Dylai tystiolaeth hefyd adlewyrchu'r defnydd o asedau y gallai dinasyddion eu cyfrannu. Gyda hyn mewn golwg, dylai ymgysylltu â dinasyddion anelu at grynhoi:

- Gwerthoedd, dyheadau a blaenoriaethau dinasyddion;
- anghenion ddinasyddion - rhoi cipolwg ar yr anghenion y maen nhw a'u cymunedau yn dod ar eu traws mewn bywyd bob dydd a beth allai'r atebion gorau fod; ac
- asedau dinasyddion - beth mae pobl yn gallu ei gyfrannu ac eisoes yn ei gyfrannu drostynt eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau, megis hunanofal a rheolaeth, gweithredu gan ddinasyddion a gweithredu cymunedol a gwirfoddoli.


Mae'n bwysig hefyd, o safbwynt asesu llesiant, ystyried yr hyn a olygir wrth 'ddinesydd', y mae'n rhaid iddo gynnwys diffiniad ehangach na defnyddwyr gwasanaeth. Fel pobl, mae ein profiad o lesiant yn aml-ddimensiwn, a gellir ei gategoreiddio fel a ganlyn:

- **defnyddwyr** gwasanaethau ee unigolion a theuluoedd;
- **gwneuthurwyr llefydd ('place-makers')** sy'n byw mewn cymdogaeth arbennig ee cynghorau tref a chymuned, y sector preifat lleol, y trydydd sector lleol yn ogystal ag unigolion;
- **arbenigwyr** gyda gwybodaeth fanwl am faes gwasanaeth ee sefydliadau'r trydydd sector, buddiannau'r sector preifat, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau arbenigol;
- **cyflawnwyr** gyda gwybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn effeithio ar fywydau pobl eraill ee staff ar y rheng flaen sy'n gweithio ar draws yr holl sectorau.

Mae gan bob un o'r elfennau hyn o ddinasyddiaeth rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gasglu ac asesu tystiolaeth. Bydd angen i asesiadau, felly fod yn ymwybodol o'r rolau y mae dinasyddion yn eu chwarae ar adeg yr ymgysylltu a llywio gweithgareddau ymgysylltu i ddarparu ar gyfer anghenion y dystiolaeth.

Mae'r ffigur isod yn datblygu'r syniad hwn ymhellach, gan ddarparu fframwaith defnyddiol i roi sail ar gyfer y ffurf briodol o ymgysylltu.

**Ffigur 1:** Rolau dinasyddion yng nghylch bywyd gwasanaethau



Bydd asesiadau o lesiant lleol yn ymwneud â'r cam cyntaf yn bennaf, er nad yn unig, Cafodd y sail resymegol ar gyfer cynnwys data dinasyddion yn y cyfnod hwn ei amlinellu uchod ond mae bwriadau da yn y gorffennol, yn aml wedi arafu oherwydd diffyg dealltwriaeth o ran sut y gellir casglu data dinasyddion mewn ffordd gydlynol ac ystadegol gadarn. Mae'r adran ganlynol, felly, yn amlinellu'r mathau o dystiolaeth y gellir ei chael drwy ymgysylltu â dinasyddion ac yn awgrymu dull rhesymegol o sicrhau y ceir y gwerth gorau.

### **Mathau o dystiolaeth a gafwyd gan Ddinasyddion**

Mae'r Canllawiau hyn yn cydnabod y bydd ymgorffori data dinasyddion i baratoi asesiadau o lesiant lleol yn cymryd amser i'w sefydlu. Serch hynny dylai sefydlu fframwaith clir ar gyfer casglu tystiolaeth gan ddinasyddion gael ei sefydlu o'r cychwyn cyntaf.

Y tri phrif fath o ddata dinasyddion yw:

*Mewnwelediad* (y stori tu ôl i'r data).

Mae gan ddinasyddion fewnwelediad i'r anghenion y maen nhw a'u cymunedau yn dod ar eu traws mewn bywyd bob dydd. Gallai'r math hwn o ddata ychwanegu cyd-destun i dueddiadau ystadegol a gallai, er enghraifft, egluro anghysondeb ystadegol penodol oherwydd amgylchiadau lleol.

*Data cyfranogol* (asedau sy'n grymuso dinasyddion i gymryd rhan mewn cyflwyno gwasanaeth)

Fel y soniwyd yn gynharach, ni ddylai ymgysylltu â dinasyddion gael ei ddefnyddio fel cynsail ar fodel diffyg syml sy'n nodi bylchau sydd angen eu llenwi, sy'n wahaniaeth pwysig mewn cyd-destun dadansoddol. Mae gan ddinasyddion rwydweithiau, asedau personol a mynediad at asedau ffisegol lleol y gellid eu defnyddio. Mae cyfalaf cymdeithasol, gweithredu cymunedol a gwirfoddoli, yn cynnig cyfraniadau sylweddol at gyflawni Nodau Llesiant.

Enghraifft o arfer da yn y maes hwn yw offeryn rhyngweithiol a ddatblygwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n dangos arwyddion o asedau iechyd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Gall yr offeryn gael ei ddefnyddio i lywio a chefnogi gwaith cymorth cymunedol gyda'r nod o wella iechyd. Mae linc i'r offeryn ar y wefan hon: <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/922/page/63326>.  
<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/922/page/63326>.

Wrth asesu llesiant lleol, mae ymgysylltu â dinasyddion yn rhoi cyfleoedd i asedau dynol a ffisegol gael eu nodi yn fwy systematig a chadarn a'u defnyddio mewn dull dyheadol (hy i gyfrannu at resymeg a dyluniad modelau cyflwyno gwasanaeth), yn hytrach nag mewn modd ymatebol, i ddiwallu Amcanion Llesiant a Nodau Llesiant.

#### *Data meintiol defnyddwyr gwasanaeth*

Mae asiantaethau trydydd sector ac asiantaethau eraill yn aml yn casglu data meintiol gan ddinasyddion i lywio eu gweithgareddau eu hunain. Os bydd y data hwn yn ddigon cadarn ac yn berthnasol, gallant ddarparu cyd-destun defnyddiol i lunio darpariaeth gwasanaeth ar y lefel leol. Ar ben hynny, gall y cyfryngau a ddefnyddir i gasglu'r data hyn o bosibl gael eu haddasu neu eu siapio fel dull cost-ffeithiol o gael y dystiolaeth angenrheidiol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi ffrâm lle gallai'r mathau o ddata'r dinesydd gael eu casglu. Mae'n sicrhau ymdriniaeth gynhwysfawr â mathau o ddinasyddion, wedi'i fapio yn erbyn mathau o ddata'r dinesydd.

**Tabl 1:** Mathau o Ddata Dinesydd yn ôl Grŵp Dinasyddion

	Mewnwelediad	Cyfranogol	Meintiol
<b>Defnyddwyr</b>	Arolygon defnyddwyr gwasanaeth.  Astudiaethau ethnograffig ee storïau defnyddwyr	Dulliau a gwasanaethau personol sy'n canolbwyntio ar bobl.	Data a gasglwyd o wasanaethau a gyflwynir gan y dinesydd - niferoedd yn defnyddio'r gwasanaeth, lledaeniad daearyddol, proffil oedran ac ati
<b>Gwneuthurwyr</b>	Astudiaethau	Gwybodaeth am	Data sy'n seiliedig ar



<b>Llefydd</b>	achos ac asesiad effaith sy'n benodol i ardal.	asedau lleol, dynol a ffisegol.  Syniadau ar gyfer sut i ddefnyddio asedau a'r cymorth sydd ei angen.	ardal a gasglwyd trwy gynlluniau cymunedol neu ymarferion tebyg.
<b>Arbenigwyr</b>	Cipolwg ar effeithiau profiad technegol neu brofiad wedi'i fyw o ddarparu gwasanaethau.	Asedau thematig gan gynnwys sgiliau arbenigol.	Data o grwpiau penodol o ddinasyddion sydd ag anghenion neu ddyheadau cyffredin.
<b>Cyflenwyr</b>	Profiad o gyswllt o ddydd i ddydd gyda dinasyddion a deall eu hanghenion a'u dyheadau.	Syniadau newydd sy'n codi o feddwl am effaith gwasanaethau ar ddinasyddion.	Data o ddefnyddio gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli - bylchau a thueddiadau.

Mae Tabl 1 yn fframwaith delfrydol y gellid gwneud dadansoddiad cynhwysfawr o ddata dinasyddion o'i fewn. Mae'n annhebygol y bydd yr holl ddimensiynau yn cael eu cynnwys yn yr asesiadau cyntaf o lesiant lleol, ond, drwy fabwysiadu'r ymagwedd eang hon, gallai byrddau ymdrechu i wella flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran cwmpas a dyfnder yr ymgysylltu â dinasyddion a defnyddio'r dystiolaeth a gafwyd drwyddo wrth asesu llesiant.

## Dulliau

Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn anelu at ddefnyddio arferion gorau yn ogystal â datblygu dulliau arloesol wrth gasglu data am ddinasyddion. Gallai Cyfranogaeth Cymru roi cyngor a hyfforddiant ar ystod o ddulliau gwahanol ar gyfer casglu data cadarn am ddinasyddion. Bydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol ardaloedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ynghylch ymgysylltu a chasglu data am ddinasyddion. Mae ffynonellau allweddol eraill o gymorth a chyfarwyddyd yn cynnwys:

O fewn y sefydliadau sy'n ffurfio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bydd cyfoeth o arbenigedd a phrofiad o ran ymgysylltu â dinasyddion. Mae gan lawer eisoes rwydweithiau Ymgysylltu â Dinasyddion y gallai ymarferwyr rannu gwybodaeth ac adnoddau trwyddynt.

Dylai cyrff cyhoeddus fod yn llofnodwyr i, a defnyddio, yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a gymeradwywyd gan Brif Weinidog

Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru. <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles>.

Dylai'r rhai sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fod yn gweithio i'r Safonau Cyfranogi i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru:

<http://www.participationworkerswales.org.uk/resource-document/national-participation-standards/>. <http://www.participationworkerswales.org.uk/resource-document/national-participation-standards/> . Rhaid i bob partner, gan gynnwys partneriaid y trydydd sector fod â pholisïau rhannu data cadarn ar waith, yn enwedig os ydynt yn defnyddio data personol er mwyn darparu mewnwelediad ac astudiaethau achos.

Dylai ymgysylltu â dinasyddion fod yn weithgaredd parhaus, gan barhau i'r cylchoedd o gynllunio a darparu gwasanaethau, a monitro a gwerthuso. Gellir canfod canllaw ymarferol i ymgysylltu effeithiol â dinasyddion, ynghyd ag adnoddau defnyddiol eraill yn <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/practitioners-manual-for-public-engagement>

Mae Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn gofyn am dystiolaeth a dadansoddiad da. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi datblygu deunyddiau i helpu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus wneud penderfyniadau yn unol â dyletswyddau cyfreithiol ar ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig megis rhyw, hil, anabled neu oedran: <http://www.equalityhumanrights.com/about-us/devolved-authorities/the-commission-in-wales/equality-impact-assessments> .

Mae gwerthuso ymgysylltu â dinasyddion yn bwysig er mwyn sicrhau y gellir cymhwyso dysgu mewn unrhyw ymgysylltu dilynol. Gellir canfod pecyn cymorth gwerthuso cyfranogol i werthuso yn erbyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn: <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/evaluation-toolkit> <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/evaluation-toolkit>

## **4. Datblygu dull gwerthusol at dystiolaeth**

### **Cyd-destun i'r ymagwedd werthusol**

Fel y nodwyd yn gynharach, bwriedir i'r Canllawiau hyn lywio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus at ddull gwerthusol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth at aseidiadau o lesiant lleol, ac yn eu tro, gynlluniau llesiant lleol.

Mae adran hon y Canllawiau yn disgrifio sut y gallai datblygu dull gwerthusol helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i:

- ddeall canlyniadau a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt yn well;
- mapio yn rhesymegol sut y deallir y mae gwasanaethau a mentrau sy'n bodoli eisoes (ymyriadau) yn gweithio; sut y bwriedir iddynt sicrhau canlyniadau sy'n gwella llesiant; a sut y byddant yn cyfrannu at lesiant yn y dyfodol;
- cyfrannu at drafodaethau ynghylch cynllunio/ ail-ddylunio gwasanaeth ;
- asesu effeithiolrwydd eu hymyriadau mewn ffordd adeiladol, a fydd yn nodi dysgu a helpu gwasanaethau i wella;
- llywio comisiynu strategol ar draws aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; a
- chynhyrchu un 'fersiwn o'r gwir', gyda dealltwriaeth gyffredin gan bob partner, a dogfen strategol allweddol ar draws yr ardal gyfan.

Awgrymir y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wneud rhai ymdrechion i:

- ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad mewn ffordd heriol ond adeiladol, gyda'r nod o wella canlyniadau llesiant, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- cynnwys aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfranogwyr wedi'u gwahodd mewn trafodaethau ystyrlon am yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei olygu a pha gamau, newidiadau ac ymatebion mae'n ei awgrymu. Yn ddelfrydol, dylai trafodaethau o'r fath gael eu harwain neu eu hwyluso gan ddadansoddwyr neu rywun medrus o ran defnyddio a dehongli tystiolaeth;
- rhoi mwy o bwyslais, yn gymharol, ar y Dadansoddiad o Ymateb na'r Dadansoddiad o Sefyllfa, er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r ymdrech ddadansoddol yn cael ei sianelu i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd ymyriadau a dealltwriaeth lle bydd ymyraethau'n cael yr effaith fwyaf;
- deall agweddau, dyheadau o ran anghenion a chyfraniadau posibl dinasyddion yn well, er mwyn sicrhau bod yr asesiadau yn gytbwys a bod cynlluniau llesiant lleol yn canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i lesiant pobl; a
- bod wrth galon penderfyniadau am gomisiynu: mae cyfle sylweddol yn bodoli i sicrhau bod asesu llesiant lleol yn sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddi a datgomisiynu, yn ogystal â llywio gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.

Ond ni fyddai'n rhesymol disgwyl:

- bod y cyfan neu hyd yn oed gyfran fawr o gamau arfaethedig yn cael eu gwerthuso mewn gwirionedd. Mae'n fwy doeth canolbwyntio ymdrechion ar nodi pa gamau arfaethedig sy'n cyfiawnhau cael eu harchwilio'n fanwl a chanolbwyntio ar eu gwerthuso mor gadarn ag y bo modd. Ar ben hynny, nid oes raid i werthusiadau fod yn ffurfiol nac yn ymarferion a gomisiynir yn allanol.
- dylai'r dadansoddiad hyrwyddo newidiadau pellgyrhaeddol i ddarpariaeth gwasanaeth heb gyfiawndad cryf. Yn wir, cydnabyddir y bydd angen i'r Cynlluniau Llesiant Lleol gael eu cynllunio a'u gweithredu o amgylch set bresennol o gynlluniau a gwasanaethau. Bydd angen i'r dadansoddiadau o Sefyllfa ac Ymateb, felly weithio gyda set o ymyriadau ar wahanol gamau o ddatblygiad ac â gwahanol lefelau o effeithiolrwydd.,.

Byddai ymagwedd werthusol yn ddelfrydol yn cael ei greu o amgylch y ddwy brif elfen y cyfeirir atynt drwy gydol y Canllawiau, sef:

**Dadansoddiad o Sefyllfa:** y dadansoddiad eang o dystiolaeth ar amodau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn ardal (lleol, rhanbarthol neu genedlaethol), a fydd yn creu dealltwriaeth a chonsensws ynghylch cyd-destun, problemau a chyfleoedd ardal ac yn sail ar gyfer dewis amcanion lleol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Dadansoddiad o Ymateb:** dadansoddiad mwy manwl a fydd yn defnyddio tystiolaeth mewn ffordd heriol, werthusol i fod yn sylfaen ar gyfer dewis amcanion lleol ac asesu sut mae gwasanaethau lleol (mewn ystyr gyfunol) yn ymdrin â hwy, a sut y gallent fod yn ymwneud â hwy.

### **Datblygu'r ymagwedd werthusol**

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu model a awgrymir (er nad yw'n rhagnodol) ar gyfer y Dadansoddiadau o Sefyllfa ac Ymateb, gyda phwyslais arbennig ar y Dadansoddiad o Ymateb a rôl ganolog cysylltiad clir rhwng ymyriadau a'u canlyniadau.

Mae yna ddulliau penodol niferus y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu mabwysiadu (neu sydd wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith eisoes gan y BGLl) ac ni fydd yr Arweiniad hwn yn ceisio'u disgrifio na'u gwerthuso. At ddibenion enghreifftiol, mae'r Canllawiau yn canolbwyntio ar ymagwedd 'theori newid' a model rhesymeg. Cafodd hwn ei ddefnyddio'n helaeth yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus, ar gyfer gwerthuso a dylunio a chynllunio gwasanaethau.

**Nid yw** hyn yn golygu mai damcaniaethau o newid a modelau rhesymeg yw'r unig ddull a argymhellir neu eu bod rywsut yn well neu i'w ffafrio yn hytrach na dulliau eraill. Y pryder pennaf wrth ddewis dull yw nodi un sy'n archwilio'n benodol y **cysylltiadau achosol** rhwng camau arfaethedig a'r canlyniadau llesiant y maent yn gweithio tuag atynt. Mae damcaniaethau newid a modelau rhesymeg yn un ffordd o ymdrin â hyn, ond cydnabyddir y gallai ardaloedd fod wedi bod yn datblygu dulliau (ee Diagramau Sbardunau, Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, Dadansoddiad o Gyfraniad) sy'n addas i anghenion arbennig partneriaid lleol a gallent fod yn cael canlyniadau cadarnhaol yn barod. Y prif bwyslais yw sicrhau bod yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio tuag at ddull heriol, seiliedig ar ganlyniadau a defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad yn adeiladol ac yn effeithiol.

### **Y Dadansoddiad o Sefyllfa ac asesu llesiant lleol**

Bydd y Dadansoddiad o Sefyllfa yn cyflwyno tystiolaeth am lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal, i ganiatáu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nodi blaenoriaethau a materion lleol. Bydd yn ei dro, yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y meysydd ffocws ar gyfer y Dadansoddiad o Ymateb, a fydd yn y pen draw yn sylfaen i'r cynlluniau llesiant lleol. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y Dadansoddiad o Sefyllfa ynddo ei hun yn nodi'r blaenoriaethau; ei fwrdd fydd darparu strwythur a sail dystiolaeth ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i gefnogi'r penderfyniadau y mae angen iddo eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethau lleol.

I'r perwyl hwn, byddai'n ddefnyddiol pe bai gan y Dadansoddiadau o Sefyllfa ffocws a'u bod yn gryno i dynnu sylw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus at y dystiolaeth fwyaf perthnasol. Amcan pennaf y Dadansoddiad o Sefyllfa fydd ffurfio sail ar gyfer yr asesiad o lesiant lleol a chyfrannu tystiolaeth i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nodi eu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun llesiant lleol. Yn fwy penodol, dylai'r Dadansoddiad Sefyllfa:

- adeiladu dealltwriaeth o amodau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant lleol (ac ehangach lle bo hynny'n briodol), gan dynnu'n bennaf ar set ddata gyffredin, ond yn cynnwys data ychwanegol yn ôl y gofyn;
- ystyried, hyd y gellir, sut mae amodau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant yn debygol o newid yn y cenedlaethau sydd i ddod, a fydd yn rhoi cyd-destun pwysig i'r Dadansoddiad o Ymateb; a
- disgrifio'r cyd-destun polisi lleol, rhanbarthol neu genedlaethol, lle bo angen i wella dehongliad o'r dystiolaeth.

Dylai'r Dadansoddiad o Sefyllfa dynnu ar ystod o ffynonellau tystiolaeth gan ddefnyddio'r rhai sydd fwyaf priodol i'r cyd-destun lleol a'r polisiâu a'r rhaglenni sy'n weithredol. Fel canllaw cyffredinol, byddai Dadansoddiad o Sefyllfa cadarn yn tynnu o'r ffynonellau canlynol:

- data eilaidd (ee ystadegau'r Cyfrifiad ac ystadegau swyddogol) i ddisgrifio'r cyd-destun, nodweddion a hanes economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal;
- unrhyw ymchwil a dadansoddiad credadwy, neu'n sy'n berthnasol i lesiant ardal, gan gynnwys, er enghraifft, gwerthusiadau, astudiaethau ethnograffig ac astudiaethau achos;
- unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ansoddol a gasglwyd o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, dysgu gweithredol ar faterion lleol neu werthusiadau o wasanaethau;
- arolygon dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys arolygon cenedlaethol perthnasol;
- data gweinyddol, a allai gynnig mewnwelediad pwysig i lesiant poblogaethau ac is-boblogaethau o gleientiaid ; a'r
- asesiadau statudol y mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth baratoi eu hasesiadau o lesiant lleol (gweler adran 38 (3) y Ddeddf).

Wrth baratoi'r Dadansoddiad o Sefyllfa, rhaid cadw mewn cof y dylai'r asesiad o lesiant lleol gael ei anelu tuag at y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Lle mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn caniatáu a'i bod yn ystyrion gwneud hynny, dylai ystyried llesiant yn y tymor hwy gael ei integreiddio i'r dadansoddiad (ee ystyried tueddiadau cymdeithasol yn y tymor hwy a sut y bydd y rhain yn effeithio ar raddfa'r her yn y dyfodol).

### **Dadansoddiad o Ymateb a datblygu'r Cynllun Llesiant Lleol**

Y Dadansoddiad o Ymateb yw'r hyn a ddylai gysylltu'r Dadansoddiad Sefyllfa â'r cynllun llesiant lleol - cam hollbwysig a oedd yn aml ar goll o asesiadau o anghenion yn y gorffennol. Byddai'r Dadansoddiadau o Sefyllfa ac Ymateb gyda'i gilydd yn sail i benderfyniadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu lleol ac yn darparu sail resymegol ar gyfer dyfeisio strategaethau a champau gweithredu effeithiol i ymdrin â hwy.

Cydnabyddir o'r cychwyn y bydd gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyd-destun ei hun, y bydd pob un yn dechrau o'i linell sylfaen ei hun a bydd yn symud ymlaen ar ei gyflymder ei hun. Felly ni fyddai'n ddoeth cyflwyno argymhellion manwl o'r hyn y dylai Dadansoddiad o Ymateb ei gynnwys a sut y dylid ei lunio. Mae yna, fodd bynnag, rai elfennau sylfaenol a fyddai'n helpu i sicrhau bod dystiolaeth yn cael

ei defnyddio mewn ffordd fwy heriol, adeiladol a gwerthusol: Byddai'r rhain yn helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i:

RA1. Ddeall y canlyniadau y maent yn gweithio tuag atynt neu y dylent fod yn gweithio tuag atynt, a'r cyfraniad y gallai eu hymyriadau wneud iddynt.

RA2. Ystyried yn fwy gwrthrychol yr ystod o opsiynau ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau penodol.

RA3. Cynllunio cyflenwi gwasanaeth gyda syniad cliriach am sut y bydd gweithgareddau a buddsoddiadau penodol yn cynhyrchu'r canlyniadau a ddymunir, yn y tymor byr a'r tymor hir.

Gan ddefnyddio damcaniaeth newid a dull model rhesymeg fel enghraifft, mae'r adrannau canlynol yn disgrifio ac yn trafod sut i ymdrin ag elfennau hyn y Dadansoddiad o Ymateb.

## **RA1 Deall Canlyniadau**

Bydd archwiliad trylwyr o ganlyniadau yn sylfaenol i ddatblygu unrhyw gynllun llesiant lleol am nifer o resymau:

- yn bennaf i esbonio sut y bydd y canlyniadau a ymgorfforir mewn cynllun llesiant lleol ardal yn cysylltu â'r Nodau Llesiant a nodir yn y Ddeddf;
- i ddeall yn glir beth mae camau unigol, a chamau cyfunol, yn gweithio tuag atynt a sut y bydd eu 'llwyddiant' yn cael ei asesu;
- i egluro amserlenni ar gyfer gwireddu canlyniadau a sut y gallai canlyniadau tymor byr, canolraddol a thymor hir gael eu cysylltu;
- i ddatblygu dealltwriaeth o'r gwahanol ffactorau a allai ddylanwadu ar y canlyniadau ac, yn ei dro, ddeall dylanwad ymyriadau penodol.

Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu y byddai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud y canlynol:

1. ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel amcanion lleol, mae angen consensws ynghylch y canlyniadau a ddymunir ac ymgais i ddeall pa gynnydd y gellir ei ddisgwyl yn y tymor byr, canolraddol a thymor hir;
2. ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, mae angen ystyried y cysylltiadau achosol rhwng yr ymyriadau a chanlyniadau, a ddylai yn ei dro gysylltu ag amcanion llesiant ardal a'r nodau llesiant cenedlaethol;

3. trafod, cyn belled â phosibl, yr hyn sy'n hysbys am y canlyniadau o dan sylw. Yn arbennig, bydd yn bwysig sefydlu os ac i ba raddau y gall ymyriadau gwasanaethau cyhoeddus ddylanwadu arnynt a pha ffactorau eraill a allai ddylanwadu arnynt. Dylai hyn ganiatáu ar gyfer dyfarniad sydd wedi'i resymu ynghylch priodoldeb y canlyniadau a fwriedir;
4. ystyried y dystiolaeth sy'n angenrheidiol i arddangos y canlyniadau (ee a oes dangosyddion canlyniadau sefydledig?), a fydd yn arwain trefniadau monitro ac olrhain ac yn nodi heriau neu fylchau arbennig mewn tystiolaeth bresennol; a
5. mapio'r ymyriadau presennol sy'n gweithio tuag at y canlyniadau hyn yn yr ardal.

O ran sut i fynd at hyn, byddai cyfuniad o ymchwil bwrdd gwaith (gan dynnu ar ymchwil sy'n bodoli eisoes i greu darlun o'r canlyniadau) a thrafodaeth wedi'i ffocysu gyda phartneriaid i gyrraedd consensws yn angenrheidiol. Yn realistig, ni fyddai'r ymarferiad yn golygu ail-feddwl am y canlyniadau'n llwyr, yn enwedig lle mae'r cysylltiadau wedi'u hen sefydlu. Yr amcan yn hytrach fyddai datblygu dealltwriaeth fwy cyfoethog o ganlyniadau, er mwyn i newidiadau gael eu deall yn eu cyd-destun llawn (ee deall beth sy'n sbarduno'r newid mewn canlyniad arbennig a sut y cafodd llawer o'r newid hwn ei achosi mae'n debyg gan yr ymyriad). Byddai technegau sy'n canolbwyntio ar ganfod achosion canfyddedig, megis damcaniaethau o newid, Diagramau Sbardunau a Dadansoddiad o Gyfraniad yn addas iawn i'r dasg.

Bydd y wybodaeth a roddwyd gan y Dadansoddiad o Sefyllfa, gobeithio, wedi rhoi rhyw syniad o effeithiolrwydd gweithgareddau allweddol yn y cynllun blaenorol, ac wedi tynnu sylw at le mae angen gofyn cwestiynau pellach. Dylai fod wedi nodi pa ddulliau sy'n gweithio, i ba raddau a pham, a pha faterion sydd angen ymyriadau neu gefnogaeth wahanol / ychwanegol.

## **RA2 a RA3: Cysylltu ymyriadau â chanlyniadau**

### *Enghraifft yn defnyddio damcaniaethau newid a rhesymeg modelau*

Un o'r heriau allweddol gydag ymagweddau hanesyddol at asesu anghenion a chynllunio integredig fu wrth wneud cysylltiadau amlwg rhwng yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud a sut y gallai partneriaid lleol ymateb iddi. Gyda hyn mewn golwg, mae adran hon y Canllawiau yn disgrifio dull syml, rhesymegol, sy'n deillio o werthusiad seiliedig ar theori ond a ddefnyddir fwyfwy ar gyfer dyfeisio polisi, dylunio rhaglenni a siapio darpariaeth gwasanaeth. Mae'r dull hwn hefyd yn gydnaws â'r dulliau seiliedig ar asedau o gynnwys dinasyddion a drafodwyd ym Mhennod 3. Yn gryno, byddai dull sy'n seiliedig ar resymeg yn helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i:




- egluro sut a pham y bwriedir i set benodol o weithgareddau, mentrau, polisiau neu raglenni gyflawni eu canlyniadau dymunol;
- fod yn sail ar gyfer y gwaith o ddylunio, profi a mireinio ymyriadau trwy gyfleu'r rhesymeg a'r rhagdybiaethau ynghylch sut y bwriedir iddynt weithio;
- egluro cyfraniad gwahanol fathau o ymyriadau a gwasanaethau i ganlyniadau; ac
- asesu cyfraniadau partneriaid unigol at ganlyniadau cyfunol, a fydd yn eu cynorthwyo i lunio a chynllunio eu gweithgareddau eu hunain.

Mae'r dull rhesymegol syml a ddangosir yma (unwaith eto, at ddibenion arddangos, ac nid ar draul dulliau eraill) yn seiliedig ar ddulliau 'theori newid'. Mae damcaniaeth newid yn y bôn yn ddisgrifiad o sut y bwriedir i ymyriad gyflawni ei ganlyniadau a ddymunir (neu sy'n bosibl), drwy egluro eu perthynas â'i fewnbynau, gweithgareddau ac allbynau. Bydd damcaniaeth newid (y cyfeirir ati weithiau fel theori rhaglenni neu resymeg ymyrraeth) yn asesu canlyniadau yn y tymor byr, canolraddol a thymor hir. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun yr asesiad o lesiant lleol, a fydd yn ceisio dangos sut y bydd ymyriadau cyfredol, neu'r rhai a gynllunnir yn y dyfodol agos, yn gweithio tuag at effeithiau tymor hwy ac yn cyfrannu at Amcanion Llesiant yr ardal a'r Nodau Llesiant lefel uchel a nodir yn y Ddeddf.

Dull a ddefnyddir yn gyffredin a dull hygyrch i gynrychioli damcaniaeth newid yw model rhesymeg. Mae model rhesymeg yn ffordd ddiagramatig o ddisgrifio'r ddamcaniaeth newid ar gyfer ymyriad. Mae arddulliau cyflwyno a therminoleg yn amrywio'n fawr ac nid oes confensiwn derbynol. Ond yn nodweddiadol, byddai model rhesymeg yn nodi rhesymeg ymyriad fel a ganlyn:

**Ffigur 2:** Damcaniaeth newid damcaniaethol a nodir mewn model rhesymeg



**Enghraifft ddamcaniaethol - gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu**

Cysylltiad negyddol rhwng ysmegu ac ieched; rhywfaint o dystiolaeth bod gan fentrau rhoi'r gorau i ysmegu deilyngdod; cymorth ac adnoddau ar gael	Staff, cyllidebau, lleoliad a hyfforddiant yn angenrheidiol er mwyn datblygu gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu	Sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y sefydlu, profi a chyflwyno'r gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu	Sy'n cael eu defnyddio gan nifer o ysmygwyr sydd am roi'r gorau i'r arfer	Achosi i rai o'r rhain roi'r gorau i ysmegu ar unwaith neu yn fuan wedyn, sy'n ganlyniad da <i>i'r unigolion</i>	Sydd angen iddo fod a) yn cael ei gynnal gan bob unigolyn, a b) yn gweithio yn yr un ffordd ar gyfer cronfa fwy o ysmygwyr i newid yng nghyfradd ysmegu oedolion gael ei ganfod. Mae hwn yn ganlyniad <i>ar gyfer y grŵp targed</i> .	Os bydd hyn yn parhau am ddigon hir ac i ddigon o ysmygwyr, bydd clefydau a marwolaeth a achosir gan ysmegu yn gostwng. Mae hwn yn ganlyniad <i>i'r boblogaeth</i> .
				<1 oed	Yn realistig 1-5 mlynedd	Efallai >10 mlynedd

<b>Rhywfaint o reolaeth</b>	<b>Y rhan fwyaf o ffactorau o dan rheolaeth</b>	<b>Dylanwad uniongyrchol, dim rheolaeth. Ffactorau allanol yn sbarduno canlyniadau hefyd i ryw raddau.</b>	<b>Dylanwad anuniongyrchol, dim rheolaeth. Ffactorau allanol yn gorbwyso dylanwad ymyrraeth yn sylweddol</b>
-----------------------------	---	--	--

Er bod yr enghraifft yn ddamcaniaethol ac yn syml, mae'n dangos manteision ymagwedd werthusol wrth nodi'r cysylltiadau achosol rhwng ymyriadau a chanlyniadau. Ond mae'n bwysig trafod sut ac o dan ba amgylchiadau y gallai ymagwedd o'r fath ymddangos wrth asesu llesiant lleol. Bydd amgylchiadau lleol yn pennu pryd a sut y gallai dulliau gwerthusol ychwanegu'r gwerth mwyaf, ond yn gyffredinol gallent fod fwyaf defnyddiol pan:

- mae diffyg consensws rhwng partneriaid (neu o fewn sefydliad partner) am sut y mae ymyriad penodol yn gweithio, neu beth yw ei ganlyniadau neu beth ddylent fod, neu pa ragdybiaethau sy'n cael eu gwneud am y peth;

- nid yw'n glir a yw ymyriad yn gallu dylanwadu ar y canlyniadau a fwriadwyd a gallai model rhesymeg helpu i nodi'r dylanwadau allanol;
- mae partneriaid yn ystyried dewis arall posibl neu fodolau wedi'u hail-ddylunio o ddarparu gwasanaethau;
- mae partneriaid yn gweithio gyda dinasyddion i nodi sut y gallai gwasanaethau weithio a sicrhau canlyniadau;
- mae ymyriadau yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau tymor byr neu ganlyniadau canolraddol ac yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hwy ardal a bydd angen ystyried y Nodau Llesiant Cenedlaethol;
- Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio deall sut mae ymyriadau lluosog yn cyfrannu at ganlyniadau tebyg neu a rennir; neu
- mae angen gwerthuso ymyriad ac mae fframwaith cyfeirio ar gyfer profi yn ofynnol.

## 5. Sgiliau, gallu a sicrhau ansawdd

Mae yna agweddau dadansoddol o'r asesiad o lesiant lleol a'r cynllun llesiant lleol sy'n debygol o fod yn heriol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (ee defnyddio tystiolaeth ansoddol a datblygu'r ymagwedd werthusol). Er y bydd yr heriau hyn yn disgyn yn bennaf ar y swyddogion sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r asesiad o lesiant lleol a datblygu'r cynllun llesiant lleol, mae'n bwysig fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei hun a swyddogion allweddol o fewn sefydliadau sy'n aelodau hefyd yn deall beth fyddai'n ei olygu i gynhyrchu asesiadau a chynlluniau cadarn a gall gymryd penderfyniadau gwybodus ynghylch sut i sicrhau adnoddau ar eu cyfer.

Er na fydd y Canllawiau eu hunain yn ymdrin ag unrhyw heriau ynghylch sgiliau a gallu dadansoddol, mae'n cynnig cyfle i wneud rhai argymhellion a allai baratoi'r ffordd at ddatblygiadau pwysig. Yn ychwanegol at y cynigion penodol a grybwyllir isod, byddai'n werthfawr ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus enwebu aelod o'r Bwrdd fel 'hyrwyddwr' ar gyfer defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad. Gofynnid i'r hyrwyddwr hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr asesiadau. Byddai'r rôl hon yn arbennig o bwysig pan mae'r Bwrdd yn cymryd rhan wrth gytuno ac adolygu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun llesiant lleol.

### 1. *Sefydlu cymuned o arfer*

Er y gallai fod rhywfaint o awydd am hyfforddiant ar agweddau penodol ar yr asesiadau (ac mae hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried), fe fydd yna rinwedd yn sicr mewn sefydlu cymuned neu fforwm, a fyddai'n ddelfrydol yn cynnwys arbenigwyr academiaidd perthnasol, yn ogystal ag ymarferwyr. Byddai cymuned o'r fath yn caniatáu ar gyfer rhannu syniadau, dulliau, pryderon, data ac, os yw'n briodol, adnoddau. Byddai hyn yn golygu y gellid defnyddio ffynonellau cyngor, adolygiadau gan gymheiriaid a datblygu sgiliau na fyddent ar gael fel arall neu a oedd yn anhysbys. Byddai hefyd yn helpu i sicrhau bod yr arbenigedd a'r profiad sydd eisoes ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau.

Mae Rhwydwaith Dadansoddwyr ac Ymchwil Byrddau Gwasanaethau Lleol (LSBRAN) yn bodoli'n barod, a allai mewn theori, ddod yn gyfrifol am yr asesiadau o lesiant lleol ochr yn ochr â'i weithgareddau cyfredol.

### 2. *Cael mynediad at fewnbwn arbenigol ac adolygiadau gan gymheiriaid*

Mae camau ymarferol y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd i gael mynediad at arbenigedd perthnasol a chynnwys her a thrafodaeth adeiladol yn yr asesiad ac yn natblygiad y Cynllun ar wahanol adegau. Mae yna, wrth gwrs, lawer o

ffyrdd i fynd at hyn a bydd gan bob ardal ei threfniadau cyfredol ei hun. Serch hynny, mae'r gweithgareddau canlynol yn gallu bod yn werthfawr a dylid eu hystyried:

- Gwahodd arbenigwyr perthnasol i annerch y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar agweddau o asesu - ee barn ymarferydd arbenigol am sut y gallai gwasanaethau ymateb i heriau arbennig ynghylch llesiant, neu asesiad academydd o 'beth sy'n gweithio?' wrth ymdrin â mathau arbennig o broblemau. Ni fydd sicrhau'r mathau hyn o fewnbynau heb ei heriau. Yn wir, lle mae mewnbwn academaidd yn y cwestiwn, gallai fod o fudd i uwch aelodau neu gadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymgysylltu â phrifysgolion ar lefel uwch i feithrin (neu ddatblygu) y berthynas waith ynglyn â materion llesiant lleol.
- Ymgysylltu ag arbenigwyr academaidd ac eraill mewn adolygiad gan gymheiriaid o'r asesiad ar wahanol gamau i ofyn am eu barn am sut mae'r dystiolaeth wedi cael ei chynrychioli a'i dehongli a'i defnyddio i lywio'r Dadansoddiad o Ymateb yn arbennig.
- Byddai datblygu rhwydweithiau adolygu anffurfiol (ee rhwng awduron arweiniol o asesiadau mewn ardaloedd gwahanol) yn ddefnyddiol o ran rhannu syniadau ac ennill ystod o safbwyntiau ar faterion dadansoddol. Nid yw'r math hwn o adolygiad gan gymheiriaid wedi ei gyflawni fel mater o drefn yn hanesyddol.

## 6. Adnoddau a Dolenni

### Cefndir

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>  
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>

Asesiadau Effaith ar gyfer y Ddeddf - Cydraddoldeb, Hawliau Plant, y Gymraeg a Phrawfesur Polisiâu Gwledig:

<http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/future-generations/?lang=en>

'The Essentials' – A Plain English Summary of the Act, including an explanation of the Sustainable Development Principle: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?lang=en>

Evaluation of Single Integrated Plans, Broomfield, J. a Lezerad, A. (2013), Llywodraeth Cymru. <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-single-integrated-plans/?lang=en>

Y Sgwrs Genedlaethol ar 'Y Gymru a Garem' - prosiect peilot yn dilyn y cyn Weinidog dros Gymunedau a Threchgu Tlodi, Jeff Cuthbert AC, yn gofyn i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Peter Davies, wella ein dealltwriaeth am y materion tymor hir y gallai cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru eu hwynebu. <http://thewaleswewant.co.uk/>

### Rôl Data

Mae'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (PPIW) wedi cyhoeddi [dogfen drafod](#) sy'n ystyried y materion mewn perthynas â datblygiad y set o ddangosyddion cenedlaethol a osodwyd ar gyfer 'ALWs', a rhai o'r egwyddorion arweiniol sy'n bwysig i'w defnyddio wrth gael y dangosyddion cenedlaethol cywir. Gweler: <http://ppiw.org.uk/how-to-measure-progress-indicators-for-the-well-being-of-future-generations-wales-bill/>

Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith datblygu a choladu tystiolaeth wrth baratoi ar gyfer yr 'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol' statudol cyntaf ar gyfer Cymru yn 2016. Bydd hwn ar gael unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn ffynhonnell o wybodaeth am lesiant goddrychol yng Nghymru a bydd yn cael ei ddatblygu i gymryd anghenion y dangosyddion cenedlaethol i ystyriaeth - <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=en>

Ar hyn o bryd mae ONS yn cyhoeddi ystod o ddadansoddiad ar lesiant yn y DU drwy ei raglen Mesur Llesiant Cenedlaethol. Mae ystod o offer ac adnoddau eraill yn cael eu seilio ar neu'n deillio o fesurau presennol y Swyddfa Ystadegau Gwladol <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/user-guidance/well-being/index.html>

Cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy tan 2014:

<https://www.gov.uk/government/statistics/sustainable-development-indicators-sdis#history> <https://www.gov.uk/government/statistics/sustainable-development-indicators-sdis#history>

Mae data demograffig yn rhoi tystiolaeth allweddol am y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Gwybodaeth am Gyfrifiad 2021 a chyfrifiadau blaenorol: <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/index.html>

Mesur Llesiant - Comisiynwyd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru gan y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol i baratoi papur trafod ynghylch mesur cynnydd tuag at amcanion Llesiant Cymru: <http://ppi.w.org.uk/files/2015/02/Measuring-progress-towards-achievement-of-Wales-Wellbeing-goals-a-discussion-paper.pdf>

Mesur Llesiant - Cynhyrchodd y New Economics Foundation lawlyfr byr ar fesur Llesiant ar gyfer y Loteri FAWR yn 2012. Mae wedi ei anelu'n bennaf at fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol, ond mae'n cynnwys trafodaeth ddefnyddiol am egwyddorion sylfaenol mesur Llesiant, rhai o'r ystyriaethau sylfaenol ynghylch defnyddio data a sut i gasglu data ar lesiant goddrychol:

<http://www.neweconomics.org/publications/entry/measuring-well-being>

## **Rôl Dinasyddion**

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a gymeradwywyd gan Brif Weinidog Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, 2011.

<http://www.participationcymru.org.uk/national-principles>

Arweiniad ymarferol i ymgysylltu effeithiol â dinasyddion, ynghyd ag adnoddau defnyddiol eraill <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/practitioners-manual-for-public-engagement>

Pecyn cymorth gwerthuso cyfranogol er mwyn gwerthuso yn erbyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd:

<http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/evaluation-toolkit>

Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu pecyn cymorth sy'n dangos dangosyddion o asedau iechyd mewn ardaloedd bach yng Nghymru:

<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/922/page/63326>.

Ac roedd yr adroddiad yn ymwneud â phecyn cymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru:

<http://nww2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/3653c00e7bb62>

[59d80256f27004900db/bac3682259f28ade80257e42003470ca/\\$FILE/ProposedHealthAssetIndicatorsForWales\\_final.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/381710/59d80256f27004900db/bac3682259f28ade80257e42003470ca/$FILE/ProposedHealthAssetIndicatorsForWales_final.pdf)

## **Ystyried y defnydd o ddadansoddiad a thystiolaeth**

Canllawiau Trysorlys EM ar beth i'w ystyried wrth gynllunio gwerthusiad:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book>

*Logic Model Development Guide*, WK Kellogg Foundation, 2004.

<https://www.wkkf.org/resource-directory/resource/2006/02/wk-kellogg-foundation-logic-model-development-guide>

'Logic Mapping: Hint and Tips guide', Sefydliad Tavistock dros yr Adran Drafnidiaeth, Hydref 2010,

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/381710/ogicmapping.pdf&rct=j&frm=1&q=&esrc=s&sa=U&ei=yPd2VbC2IsK6swHA1oFI&ved=0CCMQFjAA&usq=AFQjCNHPQjEg8D4h0RkiaDnMrA3Kw7MGJA](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/381710/ogicmapping.pdf&rct=j&frm=1&q=&esrc=s&sa=U&ei=yPd2VbC2IsK6swHA1oFI&ved=0CCMQFjAA&usq=AFQjCNHPQjEg8D4h0RkiaDnMrA3Kw7MGJA)

Diagramau Sbardunau - Mae gwefan Sefydliad y GIG er Arloesi a Gwella yn rhoi cyngor ar Ddiagramau Sbardunau mewn Ansawdd ac Offer Gwella Gwasanaethau - [http://www.institute.nhs.uk/quality\\_and\\_service\\_improvement\\_tools/quality\\_and\\_service\\_improvement\\_tools/driver\\_diagrams.html](http://www.institute.nhs.uk/quality_and_service_improvement_tools/quality_and_service_improvement_tools/driver_diagrams.html)

Fframweithiau Canlyniadau - Mae NHS Scotland yn rhoi cyngor, gan gynnwys Modelau Rhesymeg a Diagramau Sbardunau a'r gwahaniaethau rhyngddynt:

[http://www.healthscotland.com/ofhi/Resources/resources\\_driverdiagrams.html](http://www.healthscotland.com/ofhi/Resources/resources_driverdiagrams.html)

Hierarchaeth Tystiolaeth - Y farn gyffredinol yw y dylai tystiolaeth ymchwil gael ei barnu mewn hierarchaeth o ansawdd. Mae'r ddolen ganlynol yn un o nifer o enghreifftiau sy'n trafod sut y gall yr hierarchaeth hon fod yn sail ar gyfer asesiad o arfer presennol: <http://www.homelesshub.ca/gallery/hierarchy-evidence>

Trosolwg o werthuso cynllunio ac asesu canlyniadau - mae gan wefan y Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau gyfoeth o arweiniad ar agweddau amrywiol ar arfarnu, gan gynnwys asesu canlyniadau personol, dewis dangosyddion canlyniadau priodol a gwerthuso mentrau cydweithredol: <http://www.ces-vol.org.uk/tools-and-resources>

Trosolwg o ddulliau gwerthuso ac offer gwerthusol - mae'r fenter Gwerthuso Gwell yn gynllun ar y cyd rhyngwladol gyda'r nod o wella safonau gwerthuso drwy rannu a thrafod opsiynau, ymagweddau a dulliau. Mae'r deunydd yn cael ei osod ar lefel sy'n ei wneud yn hygyrch ac yn ddefnyddiol: <http://betterevaluation.org/>



Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb - Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi datblygu deunyddiau i helpu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus wneud penderfyniadau yn unol â dyletswyddau cyfreithiol ar ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig megis rhyw, hil, anabledd neu oedran:

<http://www.equalityhumanrights.com/about-us/devolved-authorities/the-commission-in-wales/equality-impact-assessments> .

## Atodiad A

### Aelodaeth y Gweithgor Aseidiadau o Lesiant Lleol

Constance Adams	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Huw Bowen	Llywodraeth Cymru
Mark Bowler	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Christine Chapple	Llywodraeth Cymru
Teresa Colligan	Llywodraeth Cymru
James Gardiner	Uned Ddata Cymru
Michelle Jaynes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Simon Kyte	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nathan Lester	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Duncan MacKenzie	Uned Ddata Cymru
Ann-Marie McCafferty	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Jackie McDonald	Llywodraeth Cymru
Steve McLinden	Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
David Morgan	Cyngor Sir Ddinbych
Seth Newman	Heddlu De Cymru a'r Comisiwn Troseddu
Alison Palmer	Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Gwent
Jamie Smith	Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)
Jamie Thorburn	Cyngor Sir Ceredigion
Joanne Williams	Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
Susan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru